OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 1064 (Cy. 103)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Troi i'r Dde) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Ebrill 2014* |
| *Yn dod i rym* | *16 Ebrill 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Castell-nedd – y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984[1] (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), a phob pŵer galluogi arall, ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Ebrill 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Troi i'r Dde) 2014.

**Gwaharddiad**

**2.** Ni chaiff neb sy'n mynd ar gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r dde i'r fynedfa i Fferm Wynt Mynydd Bwllfa ar draws cerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sydd 220 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Hirwaun.

**3.** Ni chaiff neb sy'n ymuno â'r gefnffordd o'r fynedfa i Fferm Wynt Mynydd Bwllfa sydd 220 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Hirwaun beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd i gyfeiriad y dwyrain drwy droi i'r dde ar draws cerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 11 Ebrill 2014

*R Morgan*

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.